# Gwybodaeth preifatrwydd

Mae'r arolwg Canlyniadau Graddedigion yn arolwg ledled y DU sy'n casglu gwybodaeth am weithgareddau a safbwyntiau graddedigion 15 mis ar ôl iddynt orffen eu hastudiaethau. Gofynnir i bob un o'r graddedigion cymwys sy'n cwblhau cwrs addysg uwch gymryd rhan yn yr arolwg, er mwyn helpu myfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol i gael mewnwelediad i gyrchfannau gyrfa a datblygu. Bydd eich ymatebion hefyd o fudd i'ch prifysgol neu goleg wrth werthuso a hyrwyddo eu cyrsiau.

Mae'r arolwg hefyd o bwysigrwydd cenedlaethol gan ei fod yn galluogi llunwyr polisi, elusennau, newyddiadurwyr, ymchwilwyr ac eraill i ddeall y sector addysg uwch a chyflwr y farchnad lafur i raddedigion.

## Ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r wybodaeth ynglŷn â phwy sy'n prosesu eich gwybodaeth, ar gyfer beth y maent yn ei defnyddio, y seiliau cyfreithiol ar gyfer y prosesu hwn, a'ch hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r hysbysiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru weithiau – er enghraifft, pan mae sefydliadau yn newid eu henwau, neu i egluro sut y defnyddir eich gwybodaeth. Gellir gwneud diweddariadau ar unrhyw adeg a chewch hyd i'r fersiwn fwyaf diweddar bob amser ar cy.graduateoutcomes.ac.uk/privacy-info. Mae fersiynau blaenorol ar gael ar wefan HESA.

### Sut i ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn

**Cliciwch ar y penawdau ar gyfer gwybodaeth. Mae gan bob adran wybodaeth allweddol mewn testun trwm.**

Darperir mwy o fanylder mewn testun normal.

---

Mae gan rai adrannau wybodaeth sy'n amlinellu'r sylfaen gyfreithiol ar gyfer prosesu o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

### Y sefyllfa mewn perthynas â cholegau addysg bellach yn Lloegr

Bydd graddedigion o golegau addysg bellach yn Lloegr yn cael eu gofyn i gymryd rhan yn yr arolwg. Fodd bynnag, mewn rhai agweddau, gellir trin eu gwybodaeth arolwg yn wahanol i wybodaeth gan raddedigion eraill. Lle mae hwn yw'r achos, fe'i hesbonnir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Gweler hefyd yr hysbysiad dros dro ar gyfer graddedigion o golegau addysg bellach yn Lloegr, ar ddiwedd y ddogfen hon.

# Ynglŷn â'r arolwg

## Am beth fyddaf yn cael fy holi?

**Mae'r arolwg yn eich holi am yr hyn yr ydych yn ei wneud 15 mis ar ôl i chi orffen eich cwrs. Mae'r arolwg hefyd yn gofyn rhai cwestiynau goddrychol ynglŷn â'ch teimladau am eich sefyllfa bresennol a'ch llesiant cyffredinol.**

Mae'r arolwg yn gofyn am yr hyn yr oeddech yn ei wneud mewn wythnos benodol (wythnos y cyfrifiad) tua 15 mis ar ôl i chi gwblhau cwrs addysg uwch, a pha weithgaredd oedd bwysicaf i chi (e.e. gweithio, astudio, gofalu, teithio). Bydd cwestiynau pellach yn gofyn am fwy o fanylion yn dibynnu ar y gweithgaredd a nodwyd gennych fel yr un bwysicaf.

**Efallai y bydd casgliadau ychwanegol o gwestiynau yn cael eu cynnwys trwy gais eich prifysgol neu goleg a bydd y rhain yn cael eu nodi'n glir.**

Mae rhai cwestiynau yn dibynnu ar y math o gwrs y gwnaethoch ei gwblhau – er enghraifft, mae cwestiynau arbennig ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso ac ymchwilwyr ôl-raddedig.

Os oeddech yn gweithio yn ystod wythnos y cyfrifiad, bydd yr arolwg hefyd yn gofyn ynglŷn â'ch cyflog.

Mae rhai o'r cwestiynau wedi'u cynllunio er mwyn dal 'llais yr unigolyn graddedig' - gan roi cyfle i chi rannu eich asesiad eich hun ynglŷn â gwerth eich cwrs a phwysigrwydd personol yr hyn yr ydych yn ei wneud nawr.

Mae cwestiynau eraill yn holi am eich llesiant cyffredinol. Nid yw'r rhain yn rhan o'r cwestiynau craidd ac nid oes rhaid i chi rannu'r wybodaeth hon. Ni fydd eich darparwr addysg uwch yn derbyn eich atebion i'r cwestiynau hyn mewn modd lle bydd yn bosib eich adnabod (bydd ond yn derbyn gwybodaeth ystadegol gyfanredol ynglŷn â'r cwestiynau llesiant).

## Beth fydd yn digwydd i fy ngwybodaeth os byddaf yn gadael yr arolwg ar ôl ei gwblhau'n rhannol?

**Os byddwch yn dechrau'r arolwg ond na fyddwch yn ateb bob cwestiwn, byddwn yn anfon e-bost neu neges destun atoch i'ch atgoffa neu byddwn yn ceisio cysylltu â chi dros y ffôn i'ch atgoffa i'w gwblhau yn ddiweddarach.**

Po fwyaf o gwestiynau yr ydych yn eu hateb, y mwyaf defnyddiol bydd eich gwybodaeth. Os ydych yn ateb ychydig o gwestiynau yn unig, byddwn yn gwneud defnydd o'r wybodaeth hon o hyd. Yn dibynnu ar faint o gwestiynau rydych wedi eu


Higher Education Statistics Agency Limited is a company limited by guarantee, registered in England at 95 Promenade, Cheltenham, GL50 1HZ.
Registered No. 02766993. Registered Charity No. 1039709. Certified to ISO 27001. The members are Universities UK and GuildHE.

hateb, byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth at rai neu bob un o’r dibenion a nodir isod.

## Pwy sy'n cynnal yr arolwg Hynt Graddedigion?

**Cynhelir yr arolwg gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig ('HESA') i helpu prifysgolion a cholegau (darparwyr addysg uwch) i gyflawni eu gofynion cyfreithiol i adrodd ar ganlyniadau addysg uwch i gyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch. Mae'r cyrff cyllido a rheoleiddio yn comisiynu'r arolwg Hynt Graddedigion ac yn mynnu bod HESA a darparwyr addysg uwch yn cydweithio i gynnal yr arolwg. Mae HESA yn cyflogi sefydliad o'r enw IFF Research i gynnal yr arolwg Hynt Graddedigion dros y ffôn.**

Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg uwch roi gwybodaeth i gyrff cyllido a rheoleiddio yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (gweler **Pwrpas 2** isod).

Cesglir peth o'r wybodaeth hon gan HESA ar ran y cyrff hyn (www.hesa.ac.uk/about). Cesglir gwybodaeth gan golegau addysg bellach yn Lloegr gan yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA) drwy'r Cofnod Dysgwr Unigol (ILR).

Yn Lloegr, HESA yw'r Corff Data Dynodedig a bydd yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r arolwg ar gyfer ei swyddogaethau statudol o dan Adran 64 ac Adran 65 Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2018 (http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/29/contents/enacted). I gael rhagor o wybodaeth am rôl HESA yn fframweithiau statudol Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ewch i wefan HESA: https://www.hesa.ac.uk/about/what-we-do/statutory-w-s-ni

Yn ogystal â'i swyddogaethau statudol, mae HESA hefyd yn gweithredu fel canolbwynt gwybodaeth ar gyfer data ac ystadegau addysg uwch at ddibenion ymchwil. Nodir manylion ynglŷn â gweithgareddau rhannu gwybodaeth HESA yn yr hysbysiad hwn.

Mae HESA yn rheolydd ar gyfer eich gwybodaeth. Mae HESA yn elusen gofrestredig ac mae'n gweithredu ar sail ddielw.

Mae IFF Research yn brosesydd sy'n gweithio ar ran HESA i ymgymryd â'r arolwg Hynt Graddedigion dros y ffôn.

Weithiau bydd amgylchiadau darparwr addysg uwch yn newid fel nad yw’n orfodol i arolygu eu graddedigion mwyach. Yn yr achos hwn, gall y darparwr addysg uwch, a HESA gytuno i barhau â’r arolwg Hynt Graddedigion ar gyfer graddedigion y darparwr lle bo hyn er budd y cyhoedd.

## Sut y cafodd HESA fy manylion cyswllt?

**Darperir manylion ar gyfer yr arolwg Hynt Graddedigion gan y darparwr addysg uwch y buoch yn ei fynychu.**

Mae HESA yn derbyn data am fyfyrwyr addysg uwch yn y DU. Anfonodd y darparwr addysg uwch y buoch yn ei fynychu eich manylion i HESA fel eich bod yn gallu cymryd rhan yn yr arolwg Hynt Graddedigion fel y disgrifir yn Hysbysiad Casglu Myfyrwyr HESA. Os gwnaethoch astudio mewn coleg addysg bellach yn Lloegr cafodd eich manylion cyswllt eu darparu i HESA gan yr Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau (ESFA) drwy'r Cofnod Dysgwr Unigol (ILR).

Caiff eich manylion cyswllt eu defnyddio gan HESA a'i phroseswyr data yn unig er mwyn cynnal yr arolwg Hynt Graddedigion ac mae copïau yn cael eu dileu gan bob sefydliad pan nad oes eu hangen bellach ar gyfer yr arolwg. Rydym yn rhagweld y bydd hyn oddeutu 12 mis ar ôl i'r cohort olaf o raddedigion 2018/19 gael eu harolygu er mwyn gallu cynnal unrhyw archwiliad neu ail arolwg y gallai fod eu hangen gan y cyrff ariannu a rheoleiddio, neu unrhyw waith dadansoddi ychwanegol sy'n ymwneud ag ansawdd y manylion cyswllt. Mae'n debygol felly y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dileu ym mis Rhagfyr 2021.

---

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth eich manylion cyswllt:
Mae'n angenrheidiol prosesu eich manylion cyswllt er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) y GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 y GDPR).

## A all rhywun arall ateb yr arolwg ar fy rhan?

**Gall. Os na fyddwch yn cwblhau'r arolwg ar-lein, byddwn yn ceisio eich cysylltu dros y ffôn. Os na allwn gysylltu â chi, ond atebir y ffôn gan rywun sy'n eich adnabod yn dda, efallai y byddwn yn gofyn iddo ateb y cwestiynau craidd ynglŷn â'r hyn yr ydych yn ei wneud ar ôl graddio.**

Os bydd rhywun arall yn cwblhau'r arolwg ar eich rhan ond byddai'n well gennych ddarparu eich atebion eich hun, bydd dal modd i chi gwblhau'r arolwg dros eich hunan gan ysgrifennu dros atebion y trydydd parti. Cysylltwch ag info@graduateoutcomes.ac.uk os hoffech wneud hynny.

Noder, fodd bynnag, os ydych chi'n raddedig o goleg addysg bellach yn Lloegr ni fyddwn yn gofyn i unigolyn arall gwblhau'r arolwg ar eich rhan.

Higher Education Statistics Agency Limited is a company limited by guarantee, registered in England at 95 Promenade, Cheltenham, GL50 1HZ.
Registered No. 02766993. Registered Charity No. 1039709. Certified to ISO 27001. The members are Universities UK and GuildHE.

## A fydd rhywun yn cysylltu â mi ar gyfer arolygon pellach?

**Efallai y bydd y cyrff cyllido a rheoleiddio a restrir yn Niben 3 isod yn ymgymryd ag ymchwil bellach er budd y cyhoedd ym maes canlyniadau addysg uwch, gan gynnwys arolygon pellach o raddedigion. Os bydd rhywun yn cysylltu â chi ynglŷn ag arolygon pellach, bydd y cysylltiad hwn yn dod oddi wrth eich darparwr addysg uwch neu gan y sefydliad sy'n cynnal yr ymchwil a bydd yn cynnwys gwybodaeth preifatrwydd bellach.**

Mae'n bosibl y bydd HESA, neu un o'n proseswyr, yn cysylltu â chi hefyd fel rhan o archwiliad i wirio bod yr arolwg Hynt Graddedigion wedi'i wneud yn gywir.

# Sut y defnyddir y wybodaeth a phwy sy'n ei defnyddio

## Diben 1 – Bydd eich ymatebion i'r arolwg yn cael eu darparu i'ch darparwr addysg uwch

**Bydd eich ymatebion yn cael eu derbyn gan eich darparwr addysg uwch, a fydd yn defnyddio'r wybodaeth at ddibenion ymchwil ac ystadegol i'w helpu i wella canlyniadau ei gyrsiau yn unig oni bai eich bod yn rhoi caniatâd ar gyfer dibenion eraill trwy'r arolwg.**

Bydd eich darparwr addysg uwch yn defnyddio atebion eich arolwg i wneud gwaith ymchwil ar ganlyniadau cyrsiau gwahanol ac effeithiolrwydd y gwasanaethau gyrfaoedd. Defnyddir yr ymchwil hon gan ddarparwyr addysg uwch er mwyn gwella cyrsiau a gwasanaethau a'u hyrwyddo i fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr.

Os yw'r darparwr addysg uwch y gwnaethoch ei fynychu wedi uno ag un arall ers i chi raddio, yna bydd eich atebion yn mynd i'r darparwr addysg uwch unedig newydd. Efallai bydd cyfathrebiadau gan Hynt Graddedigion yn cyfeirio at enw a logo'r darparwr y gwnaethoch ei fynychu, nid y darparwr addysg uwch unedig newydd. Os yw hyn yn berthnasol mewn perthynas â'ch Darparwr Addysg Uwch, dylai eich darparwr eich hysbysu y bydd eich atebion yn mynd i'r darparwr AU cyfun newydd.

Bydd darparwyr addysg uwch yn derbyn gwybodaeth sydd wedi'i diweddaru'n gyson o ymatebion i'r arolwg yn ystod cyfnod yr arolwg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chodio ar ddiwydiannau a swyddi graddedigion sy'n cael eu cyflogi. Gellir ond prosesu'r wybodaeth hon at ddiben monitro cynnydd yr arolwg Hynt Graddedigion.

Mae'r arolwg yn gofyn a ydych yn fodlon fod eich darparwr addysg uwch yn cysylltu â chi ynglŷn ag atebion eich arolwg. Os nad ydych yn fodlon, bydd eich darparwr ond yn gallu defnyddio eich atebion i'r arolwg at ddibenion ymchwil ac ystadegol ac ni fydd angen iddo gysylltu â chi â gwybodaeth preifatrwydd ychwanegol.

Os byddwch yn fodlon, bydd eich darparwr yn gallu cysylltu â chi o ran unrhyw ran o'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn yr arolwg. Nid oes manylion cyswllt newydd yn cael eu darparu i ddarparwyr addysg uwch, felly os byddant yn cysylltu â chi, byddant yn defnyddio'r wybodaeth gyswllt yr oedd ganddynt eisoes cyn yr arolwg. Er mwyn diweddaru'r manylion cyswllt sydd gan eich darparwr, cysylltwch ag ef yn uniongyrchol.

Bydd eich darparwr addysg uwch yn rheolydd ar gyfer eich gwybodaeth a bydd angen iddo benderfynu ei seiliau cyfreithiol ei hun ar gyfer cysylltu â chi. Os bydd eich darparwr yn cysylltu â chi, bydd rhaid iddo roi gwybodaeth preifatrwydd bellach i chi ynglŷn â sut y bydd yn defnyddio eich data personol. Efallai y bydd eich darparwr yn cysylltu â chi er mwyn rhoi gwybodaeth am ymgyrchoedd marchnata neu godi arian ac mae'n ofynnol ei fod yn rhoi cyfleoedd i chi ddewis ymeithrio rhag cyswllt yn y dyfodol os byddwch chi'n newid eich meddwl.

---

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth at Ddiben 1 – mae hyn yn cwmpasu'r defnydd o ddata personol gan HESA a darparwyr addysg uwch:
Mae prosesu eich gwybodaeth at Ddiben 1 yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) y GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 y GDPR).
Efallai y bydd hefyd yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan eich darparwr addysg uwch ac eithrio lle mae buddiannau o'r math yn cael eu trechu gan eich buddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol (gweler Erthygl 6(1)(f) y GDPR).
Mae angen prosesu data mewn categorïau arbennig at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1), sy'n seiliedig ar ddyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, neu Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (gweler Erthygl 9(2)(j) y GDPR).

## Diben 2 – Defnyddir eich ymatebion gan gyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch, sy'n mynnu bod HESA a'ch darparwr addysg uwch yn cynnal yr arolwg hwn

**Mae eich ymatebion i'r arolwg yn gysylltiedig â data ynglŷn â'r cyfnod pan oeddech yn fyfyriwr ac mae'r rhain gyda'i gilydd yn creu "eich gwybodaeth HESA". Defnyddir y wybodaeth hon gan gyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch, sydd wedi defnyddio pŵer cyfreithiol neu reoleiddio i fynnu bod eich darparwr addysg uwch a/neu HESA yn cynnal yr arolwg ac yn darparu gwybodaeth iddynt. Mae'r cyrff hyn yn defnyddio'r wybodaeth i ddeall y canlyniadau a ddaw o addysg uwch ac ar gyfer eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus, gan gynnwys dibenion ariannu, rheoleiddio a llunio polisi. Ni ddefnyddir eich atebion unigol i wneud penderfyniadau amdanoch chi.**

Bydd eich atebion i'r arolwg yn cael eu cysylltu â'r wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch fel myfyriwr, gan gynnwys gwybodaeth y gwnaethoch ei darparu wrth gofrestru, a manylion ynglŷn â'r cymhwyster y gwnaethoch ei ennill. Ceir rhagor o wybodaeth am gofnod myfyrwyr HESA yn Hysbysiad Casglu Myfyrwyr HESA a gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cofnod Dysgwr Unigol yn Hysbysiad Preifatrwydd ILR. Rhennir y wybodaeth hon gan HESA â'r cyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch sydd wedi comisiynu'r arolwg ac sydd â'r pŵer i gasglu gwybodaeth gan y darparwyr addysg uwch. Mae'r cyrff hyn yn cynnwys:

- Lloegr - OSwyddfa ar gyfer Myfyrwyr
- Cymru - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Yr Alban - Cyngor Cyllido Addysg Bellach ac Uwch yr Alban
- Gogledd Iwerddon - Adran ar gyfer yr Economi

Bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei rhannu gyda'r sefydliadau hyn fel rhan o set ddata fawr sy'n cynnwys gwybodaeth debyg am bobl eraill sydd wedi cymryd cyrsiau addysg uwch yn y DU. Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn rheolyddion ar gyfer eich gwybodaeth HESA. Mae hyn yn golygu eu bod yn penderfynu dros eu hunain ynglŷn â sut i'w defnyddio, a gallai hyn gynnwys cyhoeddi ystadegau a rhannu'r wybodaeth gyda thrydydd partïon, megis cyrff llywodraeth neu gyhoeddus eraill neu sefydliadau eraill o'r math a restrir mewn man arall yn yr hysbysiad casglu hwn. Fodd bynnag, bydd pob defnydd o'ch gwybodaeth HESA o fewn y dibenion a osodwyd yn yr hysbysiad casglu hwn a bydd yn cael ei gwmpasu gan gytundebau rhannu data gyda HESA. Ni fydd y sefydliadau hyn yn defnyddio'ch data ar gyfer eich adnabod fel unigolyn neu i wneud penderfyniadau amdanoch. Efallai y bydd y sefydliadau hyn yn cadw eich gwybodaeth HESA am gyfnod amhenodol at ddibenion ystadegol ac ymchwil.

Rhaid i bob defnydd o wybodaeth HESA gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

---

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth at Ddiben 2 – mae hyn yn cwmpasu'r defnydd o ddata personol gan HESA a rheolyddion data awdurdodau cyhoeddus:

Mae prosesu eich gwybodaeth at Ddiben 2 yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) y GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 y GDPR).

Efallai y bydd prosesu'n angenrheidiol hefyd er mwyn cydymffurfio â gofyniad cyfreithiol y gallai'r rheolydd fod yn ddarostyngedig iddo (gweler Erthygl 6(1)(c) y GDPR).

Mae angen prosesu data mewn categorïau arbennig at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1), sy'n seiliedig ar ddyletswyddau yn Neddf

Cydraddoldeb 2010, Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, neu Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (gweler Erthygl 9(2)(j) y GDPR).

## Diben 3 – Awdurdodau cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus

**Mae HESA yn gweithredu fel canolbwynt gwybodaeth er mwyn darparu data ac ystadegau ynglŷn ag addysg uwch. Er bod gan y cyrff a ddisgrifir yn Niben 2 (uchod) bŵer cyfreithiol neu reoleiddiol i ofyn am wybodaeth gan ddarparwyr addysg uwch penodol, mae awdurdodau cyhoeddus eraill hefyd yn defnyddio eich gwybodaeth HESA ar gyfer eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus, gan gynnwys at ddibenion ariannu, rheoleiddio a llunio polisïau. Ni ddefnyddir eich ymatebion i'r arolwg er mwyn gwneud penderfyniadau amdanoch chi.**

### Ystadegau a data addysg

Yn ogystal â'i gweithgareddau Corff Data Dynodedig, mae HESA hefyd yn gweithredu fel canolbwynt gwybodaeth er mwyn darparu gwybodaeth am addysg uwch. Mae HESA yn rhannu eich gwybodaeth HESA ag awdurdodau cyhoeddus sydd eu hangen er mwyn cyflawni eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus. Cynhelir y gwaith rhannu data hwn er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol a roddwyd i HESA a'r awdurdodau cyhoeddus. Bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei rhannu â'r sefydliadau hyn fel rhan o set ddata fawr sy'n cynnwys gwybodaeth debyg ynglŷn â phobl eraill sydd wedi cymryd cyrsiau addysg uwch yn y DU.

Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn rheolyddion ar gyfer eich gwybodaeth HESA. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain ynglŷn â sut i'w defnyddio, a gallai hyn gynnwys cyhoeddi ystadegau a rhannu gwybodaeth â thrydydd partïon, megis cyrff llywodraeth neu gyhoeddus eraill neu sefydliadau eraill o'r math a restrir mewn mannau eraill yn yr hysbysiad casglu hwn. Fodd bynnag, bydd pob defnydd o'ch gwybodaeth HESA o fewn y dibenion a osodwyd yn yr hysbysiad casglu hwn a bydd yn cael ei gwmpasu gan gytundebau rhannu data gyda HESA. Ni fydd y sefydliadau hyn yn defnyddio'ch data ar gyfer eich adnabod fel unigolyn neu i wneud penderfyniadau amdanoch. Efallai y bydd y sefydliadau hyn yn cadw eich gwybodaeth HESA am gyfnod amhenodl at ddibenion ystadegol ac ymchwil, neu am gyfnod penodedig yn ddibynnol ar delerau eu cytundebau rhannu data gyda HESA. Efallai y bydd sefydliadau o'r fath yn cynnwys:

Cyrff cyllido a rheoleiddio addysg uwch (o ran gwybodaeth nad yw'n cael ei chasglu o dan eu pŵer perthnasol – er enghraifft, mae gan y Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr y pŵer i gasglu gwybodaeth o'r darparwyr yn Lloegr, ond mae angen gwybodaeth arni hefyd oddi wrth ddarparwyr mewn rhannau eraill o'r DU):

- Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

- Cyngor Cyllido Addysg Bellach ac Uwch yr Alban
- Adran ar gyfer yr Economi

Adrannau addysg o fewn y gweinyddiaethau datganoledig:

- Yr Adran Addysg
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth yr Alban
- Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Cyrff eraill â swyddogaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag addysg:

- Ymchwil ac Arloesi yn y DU
- Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau
- Asiantaeth Rheoleiddio Addysgu
- Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydliadau sy'n gweithio gyda hwy, e.e.
  Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Addysg Iechyd Lloegr
- Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

ac unrhyw gyrff olynyddol. Gellir ychwanegu rheolyddion pellach i'r rhestr o bryd i'w gilydd – gweler y fersiwn ar-lein o'r hysbysiad hwn yn cy.graduateoutcomes.ac.uk/privacy-info.

**Defnyddiau eraill a wneir o ddata a enwir**

Efallai y defnyddir eich gwybodaeth HESA gan rai sefydliadau sydd hefyd yn rheolyddion ac sy'n cynnal tasgau ystadegol ac ymchwil er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg. Gallai defnyddiau o'r fath gynnwys y canlynol:

- Cynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â phoblogaeth y DU ac ar gyfer ymchwil ystadegol, a wneir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Gellir cael hyd i ragor o wybodaeth ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Cynhyrchu ystadegau ac ymchwil ystadegol gan Gofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon.
- Monitro gwariant cyhoeddus gan National Audit Office.

Bydd y rhestr uchod o sefydliadau a fydd efallai yn derbyn eich gwybodaeth HESA yn newid dros amser. Er enghraifft, mae HESA yn ceisio lleihau'r baich ar ddarparwyr addysg uwch trwy annog sefydliadau eraill sy'n casglu gwybodaeth am fyfyrwyr ar hyn o bryd yn uniongyrchol oddi wrth ddarparwyr addysg uwch i gasglu a derbyn gwybodaeth trwy HESA. Bydd y rhestr uchod yn cael ei diweddaru ar wefan Hynt

Graddedigion cy.graduateoutcomes.ac.uk/privacy-info o bryd i'w gilydd, a bydd angen i chi fonitro'r ddolen hon eich hun os hoffech fod yn ymwybodol o newidiadau.

---

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth at Ddiben 3 – mae hyn yn cwmpasu'r defnydd o ddata personol gan HESA a rheolyddion data awdurdodau cyhoeddus:
Mae prosesu eich gwybodaeth at Ddiben 3 yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) y GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 y GDPR).
Efallai y bydd prosesu'n angenrheidiol hefyd er mwyn cydymffurfio â gofyniad cyfreithiol y gallai'r rheolydd fod yn ddarostyngedig iddo (gweler Erthygl 6(1)(c) y GDPR).
Mae angen prosesu data mewn categorïau arbennig at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1), sy'n seiliedig ar ddyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, neu Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (gweler Erthygl 9(2)(j) y GDPR).

## Diben 4 – Ystadegau cyhoeddedig

**Mae HESA, eich darparwr addysg uwch, a rhai o'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Niben 2 a 3, yn cyhoeddi ystadegau ynglŷn â chanlyniadau addysg uwch.**

Rhan o rôl HESA yw paratoi a chyhoeddi gwybodaeth ynglŷn ag addysg uwch er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys rhai cyhoeddiadau Ystadegau Gwladol (https://uksa.statisticsauthority.gov.uk/about-the-authority/what-we-do/uk-statistical-system/types-of-official-statistics/) a gwasanaethau gwybodaeth busnes ac ymchwil ar-lein.

Bydd ystadegau Hynt Graddedigion hefyd yn cael eu cyhoeddi gan rai o'r awdurdodau cyhoeddus a restrir yn Nibenion 2 a 3 – er enghraifft, er mwyn darparu ystadegau cyflogaeth i helpu darpar fyfyrwyr i ddewis pa gyrsiau i'w hastudio.

Wrth gynhyrchu'r deunydd hwn ar gyfer ei gyhoeddi, mae HESA yn rhoi ei reolydd datgelu ar waith, Methodoleg Talgrynnu Safonol HESA, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddata personol yn cael ei gynnwys ac ni ellir adnabod unigolion o'r deunydd a gyhoeddir.

---

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch gwybodaeth at Ddiben 4 – mae hyn yn cwmpasu'r defnydd o ddata personol gan HESA a rheolyddion data awdurdodau cyhoeddus:

Mae prosesu eich gwybodaeth at Ddiben 4 yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) y GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 y GDPR).
Mae angen prosesu data mewn categorïau arbennig at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1), sy'n seiliedig ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (gweler Erthygl 9(2)(j) y GDPR).

## Diben 5 – Cyfle cyfartal, ymchwil, newyddiaduraeth a phrosesu arall at ddibenion ystadegol ac ymchwil

**Defnyddir gwybodaeth HESA ar gyfer gwneud gwaith ymchwil ym maes addysg uwch a phoblogaeth y myfyrwyr. Gallai'r ymchwil hon fod yn academaidd, yn fasnachol, yn newyddiadurol neu ar gyfer rhesymau personol. Nid yw HESA yn caniatáu adnabod myfyrwyr unigol gan y sawl sy'n cynnal yr ymchwil hon ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu ar sail enw.**

Efallai y bydd HESA a'r rheolyddion eraill (gweler Dibenion 2 a 3) hefyd yn darparu gwybodaeth i drydydd partïon lle mae buddiant cyfreithlon am wneud hyn at ddibenion ystadegol ac ymchwil. Mae enghreifftiau o ddefnyddio gwybodaeth at y diben hwn yn cynnwys:

- Darparu gwybodaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr
- Monitro cyfleoedd cyfartal
- Ymchwil – gallai hyn fod yn ymchwil academaidd, ymchwil fasnachol neu ymchwil ystadegol arall lle mae hon er budd y cyhoedd
- Newyddiaduraeth – lle byddai'r cyhoeddiad perthnasol o fudd i'r cyhoedd, e.e. tablau cynghrair
- Bas data meincnodi, a elwir yn Heidi Plus

Mae'r defnyddwyr y gellir darparu gwybodaeth ar eu cyfer at Ddiben 5 yn cynnwys:

- Cyrff y sector addysg uwch
- Darparwyr addysg uwch
- Ymchwilwyr a myfyrwyr academaidd
- Sefydliadau masnachol (e.e. cwmnïau recriwtio, darparwyr tai, cyflogwyr graddedigion)
- Undebau
- Sefydliadau anllywodraethol ac elusennau
- Cyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Newyddiadurwyr

Cyflenwir yr wybodaeth a gyflenwir gan HESA i drydydd partïon oddi mewn i Bwrpas 5 o dan gontractau sy'n dweud ei bod yn ofynnol peidio â gallu adnabod unigolion oddi wrth yr wybodaeth a gyflenwir ac mae hyn hefyd yn golygu na allant ei defnyddio i wneud penderfyniadau amdanoch chi.

Mae copi o gytundeb presennol HESA ar gyfer cyflenwi gwybodaeth ar gael yn www.hesa.ac.uk/services/custom/data/timescales-costs. Mae pob cytundeb yn nodi'r cyfnod ar gyfer prosesu'r data. Blwyddyn yw'r cyfnod hwn fel rheol ond gall fod yn hirach os oes angen, ar gyfer y pwrpas ymchwil penodol.
Asesir pob cais am wybodaeth HESA o dan Bwrpas 5 am ei gydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data a'i gysondeb â'r Hysbysiad Casglu hwn. Mae HESA yn sicrhau mai dim ond yr wybodaeth HESA ofynnol ar gyfer y pwrpas ymchwil penodol a gyflenwir i ddefnyddwyr. Os bydd yr wybodaeth a gyflenwir yn cael ei chyhoeddi ym Methodoleg Crynhoi HESA neu mewn datgeliad cyfatebol, rhaid gweithredu rheolydd i sicrhau nad oes posib adnabod unigolion o'r deunydd a gyhoeddwyd ac nad ydynt yn Ddata Personol.

Mae copi o gytundeb cyfredol HESA ar gyfer mynediad i Heidi Plus ar gael yma. Mae pob cytundeb yn manylu ar y pwrpas ar gyfer prosesu'r data.

Gweithredir y prosesu o fewn y diben hwn (Diben 5) gan HESA a HESA Services Limited, is-gwmni a berchnogir yn llwyr gan HESA. Gall rheolyddion eraill (a restrir o dan Ddibenion 2 a 3 uchod) hefyd brosesu data at y diben hwn lle mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.

---

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch gwybodaeth at Ddiben 5 – mae hyn yn cwmpasu'r defnydd o ddata personol gan HESA a derbynwyr data trydydd parti at ddibenion ystadegol ac ymchwil:
Mae prosesu eich gwybodaeth at Ddiben 5 yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth gyflawni awdurdod swyddogol a roddwyd i'r rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) y GDPR).
Efallai y bydd prosesu'n angenrheidiol hefyd at ddibenion buddiannau cyfreithlon HESA wrth ledaenu gwybodaeth addysg uwch, neu fuddiannau cyfreithlon trydydd partïon sy'n ymgymryd ag ymchwil ym maes addysg uwch (gweler Erthygl 6(1)(f) y GDPR).
Yn y naill achos neu'r llall, mae prosesu eich gwybodaeth HESA'n angenrheidiol at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) y GDPR.
Mae angen prosesu data mewn categorïau arbennig at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1), sy'n seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (gweler Erthygl 9(2)(j) y GDPR).

## Pwrpas 6 – Cefnogaeth i fyfyrwyr mewn argyfwng

**O dan amgylchiadau eithriadol, os daw HESA yn ymwybodol bod eich ymatebion i'r arolwg yn dangos bod risg sylweddol i chi neu i eraill, efallai y byddwn yn cysylltu â'ch darparwr neu'n gofyn i sefydliad cefnogi gysylltu â chi.**

Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol fyddwn ni'n rhannu'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym ac yn cymryd y camau uchod:

- Os ydych yn nodi eich bod wedi cymryd camau i ddod â'ch bywyd i ben neu os yw'n ymddangos eich bod mewn perygl o fethu cadw eich hun yn ddiogel rhag hunanladdiad
- Rydym yn credu eich bod chi neu rywun arall wedi bod mewn perygl o niwed difrifol, neu eich bod mewn perygl o niwed difrifol.

Mae eich cyfrinachedd yn hollbwysig i ni a dim ond o dan yr amgylchiadau a nodir uchod fyddwn ni'n ystyried siarad â rhywun arall neu drefnu iddynt gysylltu â chi. Os yw'r amgylchiadau hynny'n berthnasol, hyd yn oed os nad ydych wedi rhoi caniatâd penodol i'ch darparwr gysylltu â chi, efallai y byddwn yn gofyn iddynt drefnu cyswllt yr un fath.

---

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 6 – mae'r rhain yn cynnwys defnydd o ddata personol gan HESA a sefydliadau allanol eraill y gallwn rannu eich gwybodaeth â hwy er mwyn trefnu cefnogaeth i chi:

Mae angen prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 6 er mwyn diogelu eich buddiannau hanfodol (gweler GDPR Erthygl 6(1)(d)) neu er mwyn bodloni budd cyfreithlon HESA mewn gwarchod eich diogelwch a'ch lles (gweler GDPR Erthygl 6(1)(f));

Mae prosesu Categorïau Arbennig o ddata personol yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, ar sail cyfraith Undeb neu Aelod-wladwriaeth a fydd yn gymesur â'r nod a geisir, parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddiannau pwnc y data (gweler GDPR Erthygl 9(2)(g), a Deddf Diogelu Data 2018 Atodlen 1 paragraff 18).

## Sut y cysylltir fy ngwybodaeth HESA â gwybodaeth arall?

**Mae gwybodaeth HESA weithiau'n cael ei chysylltu â ffynonellau data eraill er mwyn galluogi ymchwil a dadansoddiad manylach.**

Fel y nodir uchod, lle mae HESA a sefydliadau a gwmpesir gan Ddiben 2 a 3 yn defnyddio gwybodaeth HESA, gallai hyn gynnwys cysylltu gwybodaeth HESA a enwir neu wybodaeth HESA â ffugenw â gwybodaeth arall at ddibenion ymchwil. Dyma rai enghreifftiau y gellir cysylltu â nhw:

- Data Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr – er mwyn gosod canlyniadau'r arolwg hwn yn eu cyd-destun
- Data ysgolion ac addysg bellach – er mwyn gwneud ymchwil ar fynd ymlaen i addysg uwch a chyflogaeth
- Data y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr – er mwyn gwneud ymchwil ar y defnydd o gyllid myfyrwyr
- Data ar gyrff sy'n dyfarnu cymwysterau – er mwyn gwneud ymchwil ar werth a chanlyniadau cymwysterau
- Data cyflogaeth, treth a budd-daliadau – er mwyn gwneud ymchwil ar enillion graddedigion ac i ddeall canlyniadau addysg yn well (ceir canllawiau ynglŷn â'r defnydd o gofnodion HESA sy'n cydweddu â data treth, budd-daliadau a chyflogaeth ar: www.gov.uk/government/publications/longitudinal-education-outcomes-study-how-we-use-and-share-data)
- Data UCAS – er mwyn gwneud ymchwil ar y broses addysg uwch lawn o geisiadau i ganlyniadau
- Os ydych yn fyfyriwr meddygol, efallai y bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei chynnwys yng nghronfa ddata ymchwil UKMED (www.ukmed.ac.uk). Y Cyngor Meddygol Cyffredinol yw'r rheolydd ar gyfer y gronfa ddata hon, a ddefnyddir i wneud ymchwil ar gynnydd meddygon yn ystod eu haddysg a'u hyfforddiant.

Pan fydd HESA yn darparu gwybodaeth o'ch gwybodaeth HESA i drydydd partïon o dan Ddiben 5, gallai defnyddiau trwyddedig y wybodaeth gan drydydd parti gynnwys cysylltu gwybodaeth HESA â gwybodaeth arall sydd yn cael ei chadw gan y trydydd parti. Ystyrir caniatâd ar gyfer defnydd o'r fath fesul achos. Bydd caniatâd ond yn cael ei roi pan fydd y cysylltiad at ddibenion a amlinellir yn Niben 5 a lle mae'n ddarostyngedig i'r gofyniad i beidio â gwneud cysylltiadau er mwyn adnabod unigolion.

## Rhagor o wybodaeth am y rhai sy'n derbyn eich gwybodaeth HESA

**Mae HESA yn cyhoeddi cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth am y derbynyddion yr ydym yn datgelu data iddynt at ddibenion ystadegol. Nid ydym yn darparu enwau, manylion cyswllt nac elfennau adnabod unigryw i dderbynyddion o dan Bwrpas 5 yr Hysbysiad Casglu hwn.**

Mae'r gofrestr fyw i'w gweld yma: https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/register.

Efallai nad yw'r data sy'n cael eu darparu'n ddata personol o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR, fodd bynnag, rydym yn gweithredu'n geidwadol ac yn eu trin

fel data personol oherwydd efallai y bydd potensial i dderbynnydd allu adnabod unigolion.

# Eich hawliau preifatrwydd

## Beth yw fy hawliau?

**Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi hawliau i chi dros eich data personol. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau i wybod pa wybodaeth sy'n cael ei phrosesu amdanoch chi a sut y mae'n cael ei phrosesu. Mae'n rhaid i HESA fodloni'r hawliau hyn ynghyd ag unrhyw sefydliad arall sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut neu pam mae'ch gwybodaeth yn cael ei phrosesu.**

Mae gennych chi'r hawl i gael eich hysbysu ynglŷn â sut y defnyddir eich data personol. Adolygir yr hysbysiad preifatrwydd Hynt Graddedigion hwn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn disgrifio'n gywir sut mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio. Efallai y bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd – er enghraifft, pan fydd deddfwriaeth newydd yn cael ei deddfu, neu pan weithredir polisïau newydd gan yr awdurdodau cyhoeddus a restrir o dan Ddibenion 2 a 3. Ceir hyd i'r fersiwn ddiweddaraf o hyd ar cy.graduateoutcomes.ac.uk/privacy-info. Mae fersiynau blaenorol ar gael wefan HESA.

Ar gyfer gwybodaeth bellach ynglŷn â diogelu data, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer HESA a Swyddog Diogelu Data HESA Services, gweler www.hesa.ac.uk/dataprot. Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â sut y defnyddir eich gwybodaeth HESA, cysylltwch â data.protection@hesa.ac.uk.

O dan y GDPR, mae gennych yr hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol. Mae gennych hefyd: hawliau i gywiro gwybodaeth anghywir, cyfyngu prosesu a gwrthwynebu prosesu; a’r hawl i'ch gwybodaeth gael ei hanghofio (h.y. dileu'ch data personol). Mae'r hawliau hyn yn gyfyngedig i amgylchiadau penodol yn ôl y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 mewn amgylchiadau lle bydd data ond yn cael ei brosesu at ddibenion ymchwil neu ystadegol. Bydd HESA yn gallu gweithredu ceisiadau i ddileu gwybodaeth os cânt eu gwneud cyn 1 Ionawr 2021. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, ni fydd yn bosib i HESA weithredu ceisiadau i ddileu gwybodaeth: Bydd HESA yn dibynnu ar yr eithriad ynglŷn â dibenion ymchwil ac ystadegol, fel sail i barhau i brosesu eich atebion i'r arolwg.

Os nad ydych am gwblhau'r arolwg, nid oes gorfodaeth arnoch i wneud hynny. Os nad ydych chi eisiau i rywun gysylltu â chi o gwbl ar gyfer yr arolwg, anfonwch neges e-bost at info@graduateoutcomes.ac.uk.

Gall yr arolwg gofyn am eich caniatâd i'ch darparwr gysylltu â chi ynghylch eich ymatebion i'r arolwg. Os hoffech dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg anfonwch e-bost at info@graduateoutcomes.ac.uk.

Os ydych yn credu bod problem ynglŷn â'r ffordd y mae HESA yn trafod eich data, mae gennych yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: ico.org.uk/

## A yw fy nata yn cael ei gadw'n ddiogel?

**Mae HESA yn trin diogelwch gwybodaeth yn ddifrifol iawn ac mae'n ymrwymedig i gadw'ch data yn ddiogel. Mae HESA yn ardystiedig i safonau diogelu gwybodaeth ac mae'n ymgymryd â monitro manwl o'i systemau. Mae hyn yn cynnwys logio cyfeiriadau IP defnyddwyr y system arolwg.**

Mae HESA yn ardystiedig i'r safon ryngwladol ISO27001 ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, a safon Cyber Essentials PLUS y DU ar gyfer seiberddiogelwch. Mae'r systemau a ddefnyddir i gynnal yr arolwg Hynt Graddedigion yn destun profion hacio er mwyn adnabod a lleihau gwendidau.

Mae'r system arolwg ar-lein yn logio cyfeiriad IP, system weithredu a phorwr pob defnyddiwr at ddibenion diogelwch ac archwilio ac i wella ansawdd y system arolwg.

## A yw fy ngwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i wledydd eraill?

**Efallai y bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei throsglwyddo i wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd at y dibenion a ddisgrifir uchod.**

Bydd eich gwybodaeth HESA ond yn cael ei throsglwyddo i wledydd â deddfau diogelu data sydd wedi'u hasesu i fod yn ddigonol gan y Comisiwn Ewropeaidd, neu le mae mesurau diogelwch digonol, megis Tarian Preifatrwydd yr UE–UDA, ar waith i warchod eich gwybodaeth HESA. Cyhoeddir penderfyniadau'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddigonolrwydd diogelu data personol mewn trydydd gwledydd yma: ec.europa.eu/justice/data-protection/international-transfers/adequacy/index_en.htm.

---

## Hysbysiad dros dro ar gyfer graddedigion o golegau addysg bellach yn Lloegr.

**Mae HESA yn y broses o ymrwymo i gytundebau newydd gyda cholegau addysg bellach yn Lloegr. Nid yw'n glir eto pryd bydd yr holl gytundebau newydd ar waith.**

Mae'n bosibl na fydd yr holl gytundebau newydd ar waith erbyn dechrau blwyddyn yr arolwg. Os felly, am gyfnod byr ar ddechrau'r flwyddyn honno, efallai bydd y gwaith o brosesu gwybodaeth gyswllt ac arolwg ar gyfer graddedigion o golegau addysg bellach yn Lloegr yn cael ei wneud gan HESA o dan ei chytundebau presennol gyda cholegau addysg bellach yn Lloegr. O dan y cytundebau hyn, bydd HESA yn gweithredu fel prosesydd ar gyfer y Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr (a fydd yn rheolwr data) yn hytrach na fel rheolwr data ynddi'i hun. Fodd bynnag, bydd y dibenion y mae'r data yn cael ei brosesu ar eu cyfer yn cael eu nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Unwaith bydd y cytundebau newydd ar waith, bydd HESA yn prosesu'r wybodaeth gyswllt ac arolwg ar gyfer colegau addysg bellach yn Lloegr fel rheolwr data yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.